

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGHORYDD

Dyma adroddiad y Cynghorydd Lewis Hooper ynglŷn â'i weithgareddau allweddol dros y flwyddyn yn dod i ben 30 Ebril 2018. Mae'n cael ei gyhoeddi er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

Cynghorydd: Lewis Hooper

Ardal etholiadol: Ton-teg

Grŵp Gwleidyddol: Y Blaid Geidwadol

Adran 1: Cyfrifoldebau Craidd

- Fy rôl yn gyntaf ac yn bennaf yw cynrychioli trigolion Ton-teg, a oedd yn gyfrifol am fy ethol, hyd eithaf fy ngallu.
- Rydw i'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor Llawn. Rydw i hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Pensiynau ac yn mynychu'r cyfarfodydd.
- Codi materion a/neu bryderon sy'n cael eu codi gyda fi gydag adran berthnasol o'r cyngor.
- Cadw'r rhai rydw i yn eu cynrychioli'n hysbys o benderfyniadau'r cyngor sy'n cael effaith arnyn nhw.
- Craffu ar benderfyniadau'r cabinet a'r adran weithredol.
- Cynnal y safonau uchaf posibl bob amser.

Adran 2: Gweithgaredd yn yr Etholaeth

- Rydw i'n aml yn dosbarthu'r cylchlythyr 'inTouch' i bob aelwyd yn Nhon-teg. Mae'r cylchlythyr yn gadael i'r trigolion wybod am newyddion lleol ac am y gwaith rydw i'n ei wneud ar eu rhan.
- Rydw i'n cynnig cyngor mewn cymorthfeydd chwarterol mewn caban y tu ôl i Ganolfan y Gymuned Ton-teg, lle mae modd i drigolion drafod unrhyw faterion yr hofffen nhw gyda fi.
- Rydw i'n ymweld â thrigolion yn eu cartrefi yn ward Ton-teg os ydyn nhw'n dymuno hynny.
- Rydw i'n mynychu cynifer o achlysuron yn y gymuned o amgylch Ton-teg ag y mae modd i mi ei wneud. Mae'r rhain yn cynnwys Ffair Nadolig Ysgol Tŷ Coch a Gŵyl Nadolig Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref.
- Rydw i'n mynychu ac yn gwirfoddoli yn y Farchnad Ffermwyr sy'n cael ei chynnal yng Nghanolfan y Gymuned Ton-teg yn fisol.
- Rydw i'n gwirfoddoli ar gyfer 'Te Prynawn' Gofal yr Henoed sy'n cael ei gynnal mewn gwahanol leoliadau yn ardal Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref.
- Rydw i'n adrodd yn rheolaidd am geudyllau, palmentydd sydd wedi'u chwalu a goleuadau stryd sydd wedi'u torri ar ran trigolion.
- Rydw i'n aelod o'r pwyllgor ac yn wirfoddolwr yng Nghanolfan y Gymuned Ton-teg.
- Rydw i'n mynychu'r cyfarfod Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd gyda Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Lleol ac yn cysylltu gyda'r heddlu er mwyn trafod trosedd ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn Nhon-teg.
- Rydw i'n mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau sy'n effeithio Ton-teg a'i thrigolion.
- Mae gen i dudalen Facebook `Cllr Lewis Hooper` ac rydw i'n ei defnyddio'n rheolaidd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion am achlysuron, penderfyniadau diweddar a sut i gysylltu â mi.

Adran 3: Menterau a Gweithgareddau Arbennig

Dros y deuddeng mis diwethaf rydw i wedi gweithio ar sawl menter ar gyfer ward Ton-teg.

- Trefnu deiseb ar ran trigolion Church Road a'r strydoedd cyfagos sy'n galw am fesurau arafu traffig ar hyd Church Road. Cyflwynais y ddeiseb mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn.
- Cwrdd â swyddogion diogelwch y ffyrdd i alw am fesurau arafu traffig a/neu groesfan y tu allan i Ysgol Gynradd Gwauncelyn.
- Cwrdd â swyddogion cynllunio a thrigolion lleol ynglŷn â chais cynllunio sy'n effeithio ar Don-teg. Codi'r pryderon hyn yn ddiweddarach mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu.
- Cwrdd â swyddogion adran y priffyrdd ac ysgrifennu at yr Aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am y Priffyrdd ynglŷn â'r tagfeydd trwm ar Power Station Hill.
- Cysylltu â'r cyrff perthnasol i geisio datrys y parcio gormodol o amgylch Ysgol Gynradd Gwauncelyn ac Ysgol Tŷ Coch.
- Ymgyrchu am well cyfleusterau chwarae yn y parc chwarae yn y Dell, gan gynnwys gosod wyneb newydd ar y parc chwarae.

Adran 4: Dysgu a Datblygu

- Hyfforddiant Cynllunio a Datblygu
- Hyfforddiant Pensiynau
- Hyfforddiant TG
- Hyfforddiant Cyngor ar Bopeth.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

Llofnod y Cynghorydd:

L A Hooper

Dyddiad: 03/05/2018